# Adolygiad Cyflym
# Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru (WCEC)

## Adolygiad cyflym o'r hyn sy'n hysbys ynglŷn ag effeithiolrwydd strategaethau i fynd i'r afael ag ymddygiadau heriol ac aflonyddol myfyrwyr mewn ystafelloedd dosbarth

### Rhif adroddiad – RR00037 (Hydref 2022)

| Manylion yr Adolygiad Cyflym |
|---|
| **Adolygiad wedi'i gynnal gan:** Uned Arbenigol ar gyfer Tystiolaeth Ymchwil (SURE) |
| **Tîm Adolygu:**<br>Alison L Weightman, Kate J Lifford, Mala Mann, Lydia Searchfield, Freya Davies, Helen Morgan, Rhiannon Cordiner |
| **Adolygiad wedi'i gyflwyno i WCEC:** Hydref 2022 |
| **Cyfarfod ymgynghori â rhanddeiliaid:** 12fed Hydref 2022 |
| **Adroddiad ar yr Adolygiad Cyflym wedi'i gyhoeddi gan WCEC:** Tachwedd 2022 |
| **Tîm WCEC:** Adrian Edwards, Ruth Lewis, Alison Cooper, Micaela Gal, Jane Greenwell |
| **Dylid dyfynnu'r adolygiad hwn fel a ganlyn:**<br>RR00037_Canolfan Dystiolaeth COVID-19 Cymru_ Adolygiad cyflym o'r hyn sy'n hysbys ynglŷn ag effeithiolrwydd strategaethau i fynd i'r afael ag ymddygiadau heriol ac aflonyddol myfyrwyr mewn ystafelloedd dosbarth. Hydref 2022 |
| **Ymwadiad:** Barn yr awduron yw'r rhai sydd wedi'u mynegi yn y cyhoeddiad hwn, yn hytrach na barn Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru o reidrwydd. Mae WCEC ac awduron y gwaith hwn yn datgan nad oes ganddynt unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro. |

# Adolygiad cyflym o'r hyn sy'n hysbys ynglŷn ag effeithiolrwydd strategaethau i fynd i'r afael ag ymddygiadau heriol ac aflonyddol myfyrwyr mewn ystafelloedd dosbarth

## Rhif adroddiad – RR00037 (Hydref 2022)

## CRYNODEB O'R PRIF BWYNTIAU

**Beth ydy Adolygiad Cyflym?**
Mae ein hadolygiadau cyflym (RR) yn defnyddio amrywiad ar y dull adolygu systematig, gan dalfyrru neu hepgor rhai cydrannau i gynhyrchu'r dystiolaeth er mwyn hysbysu rhanddeiliaid yn brydlon ond eto bob amser rhoi sylw i duedd. Maent yn dilyn yr argymhellion methodolegol a'r safonau gofynnol ar gyfer cynnal adolygiadau cyflym ac adrodd arnynt, gan gynnwys protocol strwythuredig, chwilio systematig, sgrinio, tynnu data, arfarnu beirniadol a chyfuno tystiolaeth i ateb cwestiwn penodol a nodi bylchau allweddol mewn ymchwil. Maent yn cymryd 1-2 fis, gan ddibynnu ar ehangder a chymhlethdod y pwnc/ cwestiwn/ cwestiynau ymchwil, graddau'r sylfaen dystiolaeth a'r math o ddadansoddi sy'n ofynnol i gyfuno'r dystiolaeth.

**Ar gyfer pwy mae'r crynodeb hwn?**
Diben yr adolygiad yw cefnogi canllawiau diwygiedig Llywodraeth Cymru ar ymddygiad, gwaharddiadau a phresenoldeb mewn ysgolion

**Cefndir / Nod yr Adolygiad Cyflym**
Cafodd y pandemig COVID-19, a mesurau a roddwyd ar waith i'w reoli, effaith ar lesiant seicogymdeithasol plant a phobl ifanc. Yn ôl athrawon, roedd yna duedd gynyddol tuag at ymddygiadau heriol ac aflonyddol ymhlith plant ysgol. Mae'r RR hwn yn gwerthuso **effeithiolrwydd ymyriadau i fynd i'r afael ag ymddygiadau heriol ac aflonyddol mewn ysgolion a cholegau addysg bellach.** Ni nododd chwiliadau cynnar a gynhaliwyd ym mis Mai 2022 unrhyw astudiaethau perthnasol yn ystod y pandemig. Mewn trafodaeth _ rhanddeiliaid, nod y RR hwn felly oedd chwilio am gyhoeddiadau ymchwil yn ystod y pum mlynedd cyn y pandemig ac yn ystod y pandemig, h.y. **o 2015 i 2022**. Nododd y rhanddeiliaid **dri deilliant sylfaenol** i'w hystyried o ddifrif: aflonyddu rhywiol, presenoldeb/ triwantiaeth a gwahardd/ atal dros dro mewn ysgolion.

**Darganfyddiadau Allweddol**

Nodwyd 14 astudiaeth ynglŷn ag ymyriadau yn yr ysgol: 10 hap-dreial wedi'i reoli a 4 treial wedi'i reoli lle na aseiniwyd cyfranogion ar hap.

*Graddau'r sylfaen dystiolaeth*

- Cynhaliwyd pedair astudiaeth yn y DU (un yng Nghymru, Axford et al. 2020).
- Gwerthuswyd amrywiaeth eang o ymyriadau, gan gynnwys ymyriadau aml-gydran, ysgol-eang (6 astudiaeth) ac ymyriadau hyfforddi/ addysgu ar gyfer athrawon a/ neu fyfyrwyr (e.e. gweithdai, mentora, gweithgareddau) (8 astudiaeth).
- **Roedd pum astudiaeth yn adrodd ar ddeilliannau aflonyddu rhywiol:** pedwar hap-dreial wedi'i reoli ac un treial wedi'i reoli lle na aseiniwyd cyfranogion ar hap (4 o UDA, 1 o Ganada). Ystyriwyd bod pedair astudiaeth o ansawdd isel, a bod un hap-dreial wedi'i reoli o ansawdd cymedrol.
- **Roedd saith astudiaeth yn adrodd ar bresenoldeb/ triwantiaeth:** pum hap-dreial wedi'i reoli a dau treial wedi'i reoli lle na aseiniwyd cyfranogion ar hap. Roedd pedair astudiaeth o'r

DU (un o Gymru), roedd dwy o UDA ac roedd un o Norwy. Roedd pum astudiaeth yn cynnwys ymyriadau a roddir ar waith mewn ysgolion cynradd. Ystyriwyd bod dau hap-dreial wedi'i reoli o ansawdd uchel a bod un treial wedi'i reoli lle na aseiniwyd cyfranogion ar hap o ansawdd isel; roedd y gweddill o ansawdd cymedrol.

- **Roedd pum astudiaeth yn adrodd ar wahardd/ atal dros dro mewn ysgolion**: pedwar hap-dreial wedi'i reoli ac un treial wedi'i reoli lle na aseiniwyd cyfranogion ar hap. Roedd tair astudiaeth o'r DU ac roedd dwy astudiaeth o UDA. Ystyriwyd bod dau hap-dreial wedi'i reoli o ansawdd uchel, bod un o ansawdd cymedrol a bod un o ansawdd isel. Roedd y treial wedi'i reoli lle na aseiniwyd cyfranogion ar hap o ansawdd isel.

*Diweddaredd y sylfaen dystiolaeth*

- Roedd yr adolygiad yn cynnwys tystiolaeth a oedd ar gael hyd at fis Gorffennaf 2022.

*Tystiolaeth o effeithiolrwydd*

- **Aflonyddu rhywiol**: Fe allai ymyriadau hyfforddi ac addysgu ddylanwadu ar droseddu ac erlid o ran aflonyddu rhywiol mewn rhai lleoliadau (yn y tymor byr) yn ogystal ag ar wybodaeth ac agweddau. Nid oedd astudiaethau o ymyriadau aml-gydran, ysgol-eang yn cefnogi deilliannau aflonyddu rhywiol.
- **Presenoldeb/ triwantiaeth**: Er i un astudiaeth o ansawdd uchel (Bonell et al. 2018, y DU) ddarganfod canlyniadau positif ar gyfer triwantiaeth hunangofnodedig, mae tystiolaeth o ymyriadau aml-gydran, ysgol-eang ar gyfer presenoldeb yn yr ysgol yn awgrymu ei bod yn bosibl na fyddai hyn o fudd. Mae darganfyddiadau o ran effaith ymyriadau hyfforddi/ mentora ar gyfer myfyrwyr hefyd yn awgrymu ei bod yn bosibl na fyddai o unrhyw fudd o ran presenoldeb yn yr ysgol.
- **Gwahardd/ atal dros dro mewn ysgolion**: Er bod un astudiaeth o ansawdd isel (Gage et al. 2018) yn awgrymu ei bod yn debygol iawn y byddai dull ysgol-eang o weithredu'n arwain at fuddion positif, nid oedd yna ddigon o dystiolaeth o ran ymyriadau aml-gydran, ysgol-eang ac ymyriadau hyfforddi/ mentora ar gyfer myfyrwyr i wybod a yw ymyriadau o'r fath yn effeithio ar wahardd/ atal dros dro mewn ysgolion.

*Tystiolaeth o'r ansawdd gorau*

- Ystyriwyd bod dau hap-dreial wedi'i reoli o'r DU o ansawdd uchel (Bonell et al. 2018, Ford et al. 2019) (Nid oedd hyn yn cynnwys astudiaeth Cymru). Roedd un yn gwerthuso ymyrraeth aml-gydran. ysgol-eang o fewn treial INCLUSIVE: Achosi newid yn lleol mewn bwlio ac ymddygiad ymosodol trwy amgylchedd yr ysgol (Bonell et al. 2018), ac ymyrraeth hyfforddi/ addysgu arall o'r enw Blynyddoedd Rhyfeddol - Rhaglen Rheolaeth yn yr Ystafell Ddosbarth i Athrawon (IY-TCM) yn nhreial STARS (Ford et al. 2019). Roedd y ddwy astudiaeth yn asesu deilliannau presenoldeb/ triwantiaeth a gwahardd/ atal dros dro mewn ysgolion.

**Goblygiadau i Bolisi**

- Ar sail astudiaethau diweddar wedi'u rheoli **nid oes unrhyw dystiolaeth gref i awgrymu y byddai ymyriadau aml-gydran, ysgol-eang neu ymyriadau hyfforddi/ cefnogi ar gyfer myfyrwyr yn arwain at welliannau o ran deilliannau aflonyddu rhywiol (yn y tymor hir o leiaf), presenoldeb neu wahardd/ atal dros dro mewn ysgolion**.
- Gallai ymyriadau hyfforddi ac addysgu i leihau achosion o aflonyddu rhywiol fod yn effeithiol yn y tymor byr mewn rhai lleoliadau, ond mae'n aneglur 'beth allai weithio i bwy' yn y tymor byr a ph'un a all buddion barhau yn y tymor hir.
- Mae yna dystiolaeth gymedrol i awgrymu nad yw ymyriadau ysgol-eang neu ymyriadau hyfforddi/ addysgu'n effeithio ar bresenoldeb yn yr ysgol, ond cynhaliwyd 5/7 o'r astudiaethau mewn ysgolion cynradd. Mae yna ddiffyg tystiolaeth o ran grwpiau oedrannau hŷn.
- Mae angen mwy o dystiolaeth o ran gwahardd/ atal dros dro mewn ysgolion, ond mae tystiolaeth gyfyngedig yn awgrymu ei bod yn debygol iawn y byddai dull ysgol-eang o weithredu'n arwain at fuddion positif o ran amlder a pharhad atal dros dro mewn ysgolion. Mae angen dadansoddi pellach.

**Cryfder y Dystiolaeth**
Mae'r hyder mewn darganfyddiadau ynglŷn â phresenoldeb/ triwantiaeth yn gymedrol, ac mae hyder mewn darganfyddiadau ynglŷn ag aflonyddu rhywiol a gwahardd/ atal dros dro mewn ysgolion yn isel.